LEADING NURSING
SHAPING CARE

ARWAIN NYRSIO
LLUNIO GOFAL

# FFIGURAU NYRSIO
## YNG NGHYMRU – Trosolwg

*We carry the torch*
*Rydym ni'n cario'r ffagl*

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales



LEADING NURSING
SHAPING CARE
ARWAIN NYRSIO
LLUNIO GOFAL

# FFIGURAU NYRSIO YNG NGHYMRU
## Trosolwg

Nod y briff hwn yw darparu trosolwg ystadegol o gryfderau a gwendidau'r gweithlu nyrsio yng Nghymru. Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth am y gweithlu nyrsio yng Nghymru yn cynnwys Ystadegau Cymru/Llywodraeth Cymru a'r Coleg Nyrsio Brenhinol – caiff eraill eu rhestru yn y nodyn briffio hwn. Cafodd ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar nyrsys a gyflogir gan y GIG eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2016, ac mae'r rhain o fis Medi 2015[1].

Yn 2015, cynhyrchodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ei Arolwg Cyflogaeth, a gyhoeddir bob yn ail flwyddyn. Cymerwyd yr wybodaeth o'r astudiaeth DU gyfan hon o arolwg cynhwysfawr o'n haelodau nyrsio, a oedd yn cynnwys 498 o ymatebwyr o Gymru.

Mae croeso i chi gysylltu â Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN Cymru) am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau a nodir yn y nodyn briffio hwn.

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb Gweithredol o'r Pwyntiau Allweddol | | 1 |
| Adran 1 | Ffigurau Nyrsio | 2 |
| Adran 2 | Lefelau Staff Nyrsio Diogel | 3 |
| Adran 3 | Buddsoddi mewn Nyrsio | 4 |
| Adran 4 | Nyrsio yn y gymuned | 5 |


Cynhyrchwyd y briff polisi hwn gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru ym mis Medi 2016. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Lisa Turnbull, ar lisa.turnbull@rcn.org.uk neu 02920 680 738.

[1] http://gov.wales/statistics-and-research/staff-directly-employed-nhs/?lang=en

*We carry the torch*
*Rydym ni'n cario'r ffagl*

**Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru**
Tŷ Maeth
Rhodfa Ddwyreiniol King George V
Caerdydd
CF14 4XZ

02920 680 769

www.rcn.org.uk/wales   @RCNWales   RCNWales

# Crynodeb Gweithredol o'r PWYNTIAU ALLWEDDOL

1. Yn gyffredinol, mae nifer y nyrsys a gyflogir gan y GIG yn aros yr un peth. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y cleifion, lefel ddibyniaeth uwch y cleifion na'r cynnydd yn nifer y gwelyau a ddefnyddir. Gall y ffigurau cyffredinol hefyd guddio'r prinder sylweddol iawn o nyrsys cofrestredig a nyrsys mewn rhai meysydd penodol, e.e. nyrsio newyddenedigol a nyrsio plant yn y gymuned.
2. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng "nyrsio" a "Nyrsys Cofrestredig". Mae'r term 'nyrsio' yn cynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n rhan o'r teulu nyrsio.
3. Mae'r RCN yn poeni nad oes gan rai timau nyrsio'r GIG ddigon o Uwch-nyrsys Cofrestredig i ddarparu arweiniad clinigol o ansawdd a sicrhau rhagoriaeth wrth ofalu am gleifion.
4. Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn diogelu bywydau cleifion ac ansawdd y gofal a ddarperir. Dylai gael ei hymestyn i feysydd eraill fel iechyd meddwl, mamolaeth a'r gymuned.
5. Dylai Cymru chwilio am ffyrdd o ehangu mynediad i'r proffesiwn nyrsio. Rhaid sicrhau'r nifer gofynnol o fyfyrwyr nyrsio a darpariaeth addysg uwch nyrsio yng Nghymru. Dylid cadw'r fwrsariaeth i fyfyrwyr nyrsio.

6 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod nifer y myfyrwyr nyrsio cyn-gofrestru a gomisiynir yn cael ei gynnal ar y lefel gywir i fodloni gofynion y gweithlu yn hytrach na'r cylchredau 'ffynnu a dirywio' sydd wedi'u gweld yn flaenorol.

6 Bob wythnos, mae nyrsys yng Nghymru yn rhoi oriau ychwanegol i'r GIG sy'n gyfwerth ag 815 o staff nyrsio llawn amser. Yn ogystal â hyn, mae cost nyrsys asiantaeth gyfwerth â 1062 o nyrsys ychwanegol newydd gymhwyso.

8 Bydd buddsoddi mewn nyrsys, trwy gytundeb cyflog teg, telerau ac amodau da a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus, o fudd i bobl sy'n derbyn gofal.

9 Dylai Llywodraeth Cymru wella gwybodaeth genedlaethol am weithgarwch a chanlyniadau mewn cysylltiad â gofal nyrsio mewn lleoliadau GIG cymunedol ac yn y sector annibynnol er mwyn gwella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a'r gwasanaeth.

10 Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r gwasanaeth Nyrsys Ardal yng Nghymru.

Yn gyffredinol, dengys y ffigurau isod bod nifer y nyrsys sydd wedi'u cyflogi gan y GIG yng Nghymru wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2011.

**1 Yn gyffredinol, mae nifer y nyrsys a gyflogir gan y GIG wedi aros yr un peth. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y cleifion, lefel ddibyniaeth uwch y cleifion na'r cynnydd yn nifer y gwelyau a ddefnyddir. Gall y ffigurau cyffredinol hefyd guddio'r prinder sylweddol iawn o nyrsys cofrestredig a nyrsys mewn rhai meysydd penodol, e.e. nyrsio newyddenedigol a nyrsio plant yn y gymuned.**

Bu gwelliannau gwirioneddol yn y gwaith o gynllunio gweithlu'r GIG yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a dylai Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gynorthwyo â'r broses hon.

Fodd bynnag, nid yw nifer y swyddi nyrsio yn y GIG yn dal i adlewyrchu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal. Mae gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio sydd â mwy o ddibyniaeth a chyd-afiachusrwydd yn ychwanegu at lwyth gwaith nyrsys. Mae llif cleifion trwy ysbytai, ynghyd â nifer y gwelyau a ddefnyddir, wedi cynyddu'n sydyn. Mae angen cynnydd sylweddol yn nifer y nyrsys i sicrhau bod gofal o safon uchel yn cael ei ddarparu i gleifion yn barhaus. Yn syml iawn, mae angen mwy o staff nyrsio â lefel uwch o wybodaeth a sgiliau i ofalu am unigolyn sydd wedi torri ei glun os yw hefyd yn gorfforol fregus, yn dioddef o ddementia, diabetes, clefyd y galon a salwch anadlu. Mae mwy fyth o angen am hyn os yw'r unigolyn yn derbyn gofal yn ei gartref, ar ei ben ei hun neu mewn tŷ sydd mewn cyflwr gwael.

Ystyr y term "staff nyrsio" neu "nyrsys" yw Nyrsys Cofrestredig ac mae hefyd yn cynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Weithiau, gelwir Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn gynorthwywyr gofal iechyd neu 'nyrsys cynorthwyol'. Yn Lloegr, defnyddir hefyd y teitlau 'nyrsys cyswllt' neu 'brentisiaid nyrsio'. Maen nhw'n rhan bwysig o'r tîm nyrsio ac yn gymwys i fod yn aelodau o'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

Mae "Nyrsys" neu "Nyrsys Cofrestredig" yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u haddysgu i lefel radd (addysg trwy ymarfer ac astudio) ac wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae nyrsio yn broffesiwn rheoleiddiedig a'r NMC yw'r rheoleiddiwr. Drwy reoleiddio, gellir sicrhau bod gan nyrsys lefel gyson o addysg a sgiliau. Rhaid iddynt gael eu hailddilysu a gallant golli eu cofrestriad (cael eu tynnu oddi ar y gofrestr) yn y DU.

Nid yw trafod "ffigurau nyrsio", felly, yr un peth â thrafod nifer y Nyrsys Cofrestredig. Mae'n bwysig iawn nad yw'r ddau beth hwn yn cael ei ddrysu.

**2 Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng "nyrsio" a "Nyrsys Cofrestredig". Mae'r term 'nyrsio' yn cynnwys Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n rhan o'r teulu nyrsio.**


Gall y ffigurau cyffredinol hefyd wneud yr hyn a gyfeirir ato weithiau fel y "gymysgedd sgiliau" yn aneglur. Dylai tîm nyrsio gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd, Nyrsys Cofrestredig ac Uwch-nyrsys Cofrestredig profiadol sy'n arwain y tîm ac yn darparu goruchwyliaeth glinigol. Yn gyffredinol, mae'r RCN yn argymell y dylai'r gymhareb rhwng Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd mewn ardaloedd acíwt (yn unol ag amrywiaeth yn ôl angen y claf) fod yn 65:35.

Caiff Nyrsys Cofrestredig eu cyflogi yn y GIG o Fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid[2] hyd at Fand 8 neu'n uwch. Ar ôl 3 blynedd o addysg ac ymarfer llawn amser, bydd nyrsys newydd gymhwyso a Nyrsys Cofrestredig yn cychwyn ar swydd yn y GIG ar Fand 5.

Ar y llaw arall, mae'r GIG yng Nghymru wedi dechrau cyflogi 'cynorthwywyr meddygol', nas reoleiddir, ar Fand 6 ar ôl iddynt gwblhau cwrs 2 flynedd. Mae ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol hefyd yn dechrau eu gyrfa ar Fand 6.

Weithiau, mae Byrddau Iechyd yn ceisio gwneud arbedion ariannol tymor byr trwy leihau'r gymysgedd sgiliau a chael gwared ar swyddi arwain ar fandiau uwch. Pan gyflwynir niferoedd y Nyrsys Cofrestredig mewn maes penodol, mae'n syniad da i ofyn am ddadansoddiad o nifer y nyrsys yn ôl bandiau'r Agenda ar gyfer Newid.

**3 Mae'r RCN yn poeni nad oes gan rai timau nyrsio'r GIG ddigon o Uwch-nyrsys Cofrestredig i ddarparu arweiniad clinigol o ansawdd ac i sicrhau rhagoriaeth mewn gofal cleifion**




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2104 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff Nyrsio | 27,979.7 | 28,068.30 | 28,254.3 | 28,300.20 | 28,683.5 |
| Nyrsys Cofrestredig | 21,686 | 21,754.8 | 21,922.7 | 21,987.4 | 22,146.3 |

Ffigur 1 Staff Nyrsio a Nyrsys Cofrestredig y GIG yng Nghymru (Ystadegau Cymru)

[2] Agenda ar gyfer Newid yw'r fframwaith talu ar gyfer nyrsio yn y GIG, sy'n cynnwys y DU gyfan. Mae'r 'Bandiau' yn adlewyrchu'r Wybodaeth a'r Sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y swydd.

Daeth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i rym ym mis Mawrth 2016.

Bydd y ddeddf newydd hanesyddol hon, y gyntaf o'i math yn Ewrop, yn diogelu cleifion trwy fynnu bod yn rhaid cyfrifo a chynnal lefel staff nyrsio briodol mewn lleoliadau gofal acíwt i oedolion.

Yn 2007, cynhaliodd yr Athro Rafferty arolwg o bron i bedwar mil o nyrsys ledled Lloegr a'r Alban ac edrychodd ar 118,752 o achosion o ofal cleifion mewn 30 o ymddiriedolaethau ysbyty yn Lloegr. Canfu bod 26% mwy o gleifion yn marw ar wardiau â chymarebau is o nyrsys i gleifion.

Yn 2007, amcangyfrifodd meta-astudiaeth ryngwladol fod pob diwrnod ychwanegol gyda nyrs llawn amser i bob claf yn achub pum bywyd fesul 1,000 o gleifion meddygol, a chwech fesul 1,000 o gleifion llawdriniaethol.

Canfu astudiaeth arall yn 2014 fod 7 y cant mwy o berygl y bydd claf yn marw o fewn 30 diwrnod pan fydd angen i nyrs weithio gyda mwy na saith claf y diwrnod[3].

Mae'r canlyniadau gwael sydd hefyd yn gysylltiedig â lefelau isel o ofal nyrsio yn cynnwys digwyddiadau negyddol ar ôl llawdriniaeth; cyfraddau uwch o ddamweiniau ac anafiadau ymhlith cleifion; cyfraddau uwch o groes-heintio; a chyfraddau uwch o niwmonia.

Mae aelodau o'r RCN yng Nghymru yn nodi lefelau staffio yn brif bryder yn gyson, ac mae'r RCN yn parhau yn ymrwymedig i weithio gyda gwleidyddion o bob plaid i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu a'i hymestyn i feysydd eraill fel gofal cymunedol, gofal mamolaeth a gofal iechyd meddwl.

**4 Mae Deddf Lefelau Staffio (Cymru) 2016 yn diogelu bywydau cleifion a darpariaeth gofal o ansawdd. Dylai gael ei hymestyn i feysydd eraill fel iechyd meddwl, mamolaeth a'r gymuned.**

Er mwyn darparu'r gweithlu sydd ei angen ar y GIG yng Nghymru yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod niferoedd digonol o fyfyrwyr nyrsio yn dod i'r proffesiwn.

Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio tair blynedd (blynyddoedd sy'n 42 wythnos gwaith yn hytrach na'r calendr academaidd traddodiadol, sy'n fyrrach) yn cwblhau'r cwrs gradd nyrsio (y pedwar maes ymarfer yw Oedolion, Plant, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl) gan dreulio 50% o'u hamser ar leoliadau ymarferol, yn aml ar un o wardiau'r GIG.

Canfu gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2014 mewn naw gwlad Ewropeaidd fod gweithlu nyrsio mwy addysgedig yn lleihau marwolaethau diangen. Mae pob cynnydd o 10% yn nifer y nyrsys sydd wedi cwblhau gradd Bagloriaeth mewn ysbyty yn gysylltiedig â gostyngiad o 7% mewn marwolaethau cleifion[4].

Mae myfyriwr nyrsio yn 29 oed ar gyfartaledd ac yn llawer mwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu. Canfu arolwg gan yr RCN fod gan 31% blant dibynnol, bod 10% yn rhieni sengl a bod 23% yn gofalu am berthynas sy'n sâl, yn anabl neu'n oedrannus[5].

Mae myfyrwyr nyrsio yng Nghymru yn cael bwrsariaeth gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ganiatáu iddynt barhau â'u hastudiaethau. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar ei bod yn cael gwared ar y fwrsariaeth i fyfyrwyr nyrsio yn Lloegr. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o dlodi ymhlith myfyrwyr nyrsio a gallai atal pobl rhag dewis yr yrfa hon .

**5 Dylai Cymru chwilio am ffyrdd o ehangu'r mynediad at y proffesiwn nyrsio. Rhaid sicrhau'r nifer gofynnol o fyfyrwyr nyrsio a darpariaeth addysg uwch ar gyfer nyrsio yng Nghymru. Dylid cadw'r fwrsariaeth i fyfyrwyr nyrsio.**

Mae'r graff isod yn dangos gostyngiad sydyn yn nifer y myfyrwyr nyrsio rhwng 2009 a 2012. Yn dilyn y diffyg hwn, bu pwysau mawr ar y GIG yng Nghymru rhwng 2012 a 2015.

Un canlyniad a ddeilliodd o hyn yw'r arian ychwanegol sydd wedi'i wario ar recriwtio nyrsys rhyngwladol. Canlyniad arall yw'r cynnydd amlwg mewn gwariant ar nyrsys asiantaeth. Canfu cais Rhyddid Gwybodaeth fod £23 miliwn wedi'i wario ar nyrsys asiantaeth yng Nghymru yn ystod 2014.

Mae'r graff hefyd yn dangos cynnydd sydyn yn nifer y lleoedd i fyfyrwyr nyrsio a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2015 a 2016. Roedd dirfawr angen am y cynnydd hwn ac mae i'w groesawu.

**6 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod nifer y myfyrwyr nyrsio cyn-cofrestru a gomisiynir yn cael ei gynnal ar y lefel gywir i fodloni gofynion y gweithlu yn hytrach na'r cylchredau 'ffynnu a dirywio' sydd wedi'u gweld yn flaenorol.**




| | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2104 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Myfyrwyr Nyrsio Cyn-Cofestru | 1,079 | 1,095 | 1,179 | 1,070 | 1,035 | 919 | 1,011 | 1,053 | 1,283 | 1,418 |

Ffigur 2 Nifer y Myfyrwyr Nyrsio a Gomisiynwyd (Llywodraeth Cymru)

[3] Rafferty, Anne Marie et al. 2007. Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: Cross-sectional analysis of survey data and discharge records. International Journal of Nursing Studies 44 (2), t. 175 - 182. Kane, RL et al. 2007. Nurse Staffing and Quality of Patient Care. Rockville: Agency for Healthcare Research and Quality (Unol Daleithiau). Aiken, Linda et al. 2014. Nurse staffing and education and hospital mortality in nine European countries: a retrospective observational study. The Lancet 383 (9931), t. 1824 - 1830.

[4] http://www.kcl.ac.uk/nursing/newsevents/news/2014/degree-educated-nurses-can-reduce-hospital-deaths.aspx

[5] Ymateb yr RCN i ymgynghoriad Adran Iechyd y DU, Changing how healthcare education is funded.

Yn aml, mae nyrsys yng Nghymru yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi gan y GIG na'r Llywodraeth. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â'r cyflog (nad yw wedi cynyddu'n unol â chwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf), ond mae hefyd yn ymwneud â ffactorau eraill fel bod yn rhy brysur i ddarparu'r lefel o ofal y mae nyrsys yn dymuno ei rhoi. Mae ffactorau eraill yn cynnwys oriau hir neu oriau na chaiff nyrsys ryw lawer o reolaeth drostynt a phrinder cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.


Bu gostyngiad o 14% yng nghyflogau nyrsys ers 2010 mewn termau real. Ar hyn o bryd, mae nyrs sydd newydd gymhwyso yng Nghymru yn ennill £21,909 - £8,091 yn llai na'r incwm canolrifol i raddedigion yn y DU. Mae 20% o Nyrsys a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd wedi cymryd ail swydd i ddal dau ben llinyn ynghyd. Mae llawer yn dibynnu ar daliadau oriau anghymdeithasol fel rhan o'u cyflog neu i dalu am gyfrifoldebau gofalu.

Mae GIG Cymru hefyd yn parhau i ddibynnu'n fawr ar oramser. Mae 69% o nyrsys yn gweithio oriau goramser o leiaf unwaith yr wythnos.


Caiff 22,146 o nyrsys eu cyflogi yn y GIG (Ystadegau Cymru 2015). Byddai 69% o'r ffigur hwn yn cynrychioli 15,281 o nyrsys. Pe bai pob un o'r rhain yn gweithio dwy awr yn unig yn fwy mewn un wythnos, byddai'r GIG yn cael 30,562 awr ychwanegol o waith yr wythnos honno.

Yn ystod 2014, gwariodd y GIG £23,035,785 ar nyrsys asiantaeth yng Nghymru. Mae'r gost hon gyfwerth â 1062 o nyrsys newydd gymhwyso ychwanegol[7]. Mae'r ffigurau hyn gyda'i gilydd yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafod yr angen am fwy o nyrsys yn y GIG.


**7 Mae nyrsys yng Nghymru yn rhoi oriau ychwanegol i'r GIG bob wythnos sy'n gyfwerth ag 815 o staff nyrsio llawn amser. Yn ogystal â hyn, mae cost nyrsys asiantaeth gyfwerth â 1062 o nyrsys ychwanegol newydd gymhwyso.**




Ffigur 3 Morâl Nyrsys yng Nghymru (Arolwg Cyflogaeth yr RCN 2015)





Ffigur 4. Dibyniaeth ar daliadau oriau anghymdeithasol (Arolwg Cyflogaeth yr RCN 2015)




Ffigur 5. Pa mor aml y byddwch chi'n gweithio mwy na'r oriau dan gontract? (%) (Arolwg Cyflogaeth yr RCN 2015)

[7] Ni chaiff cost nyrsio asiantaeth ei gyhoeddi'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, daw'r ffigurau hyn o ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth ym mis Chwefror 2015. Yn 2015/16, cyflog nyrs gofrestredig newydd gymhwyso yn y DU oedd £21,692.




Ffigur 6. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, pa hyfforddiant gorfodol ydych chi wedi'i dderbyn? (Arolwg Cyflogaeth yr RCN 2015)

Nid yw dysgu a datblygu proffesiynol yn dod i ben ar adeg cofrestru, ac mae hyn yn gwbl hanfodol. Mae'n ofyniad sylfaenol i bob aelod o staff nyrsio trwy gydol ei yrfa. Mae'n ofyniad ar gyfer cael ailddilysiad llwyddiannus gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn hanfodol i ddiogelwch cleifion ac effeithiolrwydd clinigol, ac mae'n un o'r arfau a ddefnyddir gan y proffesiwn nyrsio i sicrhau bod arferion o'r safon uchaf posibl yn cael eu hyrwyddo a'u cynnal. Mae gwella'r cyfleoedd i wneud CPD hefyd yn ffordd bwysig o ddangos y gwerth a roddir ar y proffesiwn nyrsio a gwella morâl. Mae gan feddygon, er enghraifft, fynediad at CPD fel rhan o'u contractau. Eto i gyd, mae llawer o nyrsys a bydwragedd yn y GIG yn ei chael hi'n anodd iawn cymryd amser o'u hamgylchedd clinigol i ddatblygu eu sgiliau - neu hyd yn oed i gwblhau hyfforddiant gorfodol.

Yn ogystal â hyn, nododd 40% o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai'r Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru edrych yn fanwl ar y maes hwn. Mae'r broses arfarnu yn ffordd sylfaenol o wella safonau ac mae'n helpu i nodi ymhle y mae angen gwelliannau a chymorth.

**8 Bydd buddsoddi mewn nyrsys, trwy gytundeb cyflog teg, telerau ac amodau da a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus, o fudd i bobl sy'n derbyn gofal.**

## Section 4: Nyrsio yn y gymuned

Mae'n well gan bobl gael gofal yn eu cartrefi. Mae'n caniatáu i bobl fod yn fwy annibynnol. Pan fydd gofal rhagorol yn cael ei ddarparu yn y cartref, yn aml mae'r gofal hwnnw hefyd yn atal anhwylderau a damweiniau yn y dyfodol. Mae cyngor ar faeth neu help i osod cymhorthion syml fel matiau gwrthlithro yn ddwy enghraifft o hyn.

Gall fod gan Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sy'n gweithio yn y gymuned lawer o wahanol gyflogwyr neu arbenigeddau proffesiynol. Er enghraifft, gallent fod yn gweithio mewn cartref gofal, meddygfa, yn rhan o dîm cymunedol neu yn aelod o staff allgymorth o ysbytai. Gallai Nyrs Gofrestredig fod wedi'i chymhwyso'n benodol yn nyrs anableddau dysgu, yn nyrs ysgol neu'n Ymwelydd Iechyd (Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol).

Er nad yw'r canlynol yn rhestr gyflawn, mae'r pwyntiau bwled isod yn darparu enghreifftiau o'r amrywiaeth o ymyraethau y gall Nyrsys Cymunedol eu darparu:

- cynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd i fod mor iach â phosibl, ac i ganfod problemau iechyd posibl yn gynnar;
- cyfrannu at ddiogelu aelodau o'r boblogaeth sy'n agored i niwed;
- asesu, rhagnodi a thrin cleifion mewn lleoliadau gofal sylfaenol;
- darparu gofal nyrsio ac adsefydlu i bobl yn eu cartrefi yn ystod cyfnodau o salwch ac ar ôl llawdriniaeth;
- cynorthwyo pobl hŷn â chyflwr hirdymor i barhau i fod yn annibynnol;
- darparu gofal gydag urddas i'r rheini sydd am farw yn eu cartrefi neu mewn hosbis.

Mae Byrddau Iechyd wedi bod yn ad-drefnu gwasanaethau ysbyty acíwt ers degawd, gan leihau nifer y gwelyau, annog cleifion i aros am gyfnodau byrrach yn yr ysbyty a galluogi triniaethau a gofal mwy cymhleth yn y cartref. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn cefnogi'r camau hyn mewn egwyddor, ond mae'n poeni pa un a oes digon yn cael ei fuddsoddi yn y gweithlu i sicrhau gofal o safon uchel.

Nid oes digon o ddata ystadegol a gwybodaeth am berfformiad am y gofal a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol. Rydym yn gwybod faint o nyrsys a gyflogir gan y GIG yn genedlaethol, ond nid ydym yn gwybod faint o bobl sy'n derbyn gofal (na'u hanghenion). Felly, mae'n anodd barnu beth yw'r anghenion o ran gofal nyrsio. Nid yw cymysgedd sgiliau timau nyrsio cymunedol o fewn Byrddau Iechyd ychwaith yn cael ei gyhoeddi ar lefel genedlaethol. Yn bwysicach oll, nid oes unrhyw wybodaeth am y canlyniadau i'r cleifion.

Mae'n anos fyth dod o hyd i wybodaeth genedlaethol am nifer y nyrsys a gyflogir yn y sector annibynnol. Mae'r sector annibynnol yn cynnwys cartrefi gofal, hosbisau a sefydliadau trydydd sector fel Macmillan neu Sefydliad Prydeinig y Galon. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig gan ei bod yn caniatáu i gynllunwyr gweithlu gynllunio'n gywir faint o fyfyrwyr nyrsio sydd eu hangen.

Wrth i fwy o ofal iechyd gael ei ddarparu yn y gymuned ac wrth i fwy o'r gyllideb iechyd gael ei gwario ar hyn, mae'n fwyfwy pwysig i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth genedlaethol hon er mwyn gwella'r gweithlu a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau.

**9 Dylai Llywodraeth Cymru wella gwybodaeth genedlaethol am weithgarwch a chanlyniadau mewn cysylltiad â gofal nyrsio mewn lleoliadau GIG cymunedol ac yn y sector annibynnol er mwyn gwella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a'r gwasanaeth.**

Mae'r ffigurau yn dangos y bu cynnydd yn nifer yr Ymwelwyr Iechyd sy'n gweithio yn y gymuned yng Nghymru. Mae hyn yn newyddion ardderchog.


Fodd bynnag, mae'r graff isod hefyd yn dangos gostyngiad sydyn a chyflym yn nifer y Nyrsys Ardal yng Nghymru. Yn ystod 2015, nid oedd ond 412 wedi'u cofnodi'n gweithio mewn Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru. Mae hyn yn frawychus a dylai fod yn bryder mawr i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2008, newidiodd y model addysg ar gyfer y cymhwyster nyrsio arbenigol mewn nyrsio ardal o fodel llawn amser i 6 modiwl y gellid eu hastudio ar wahân. Roedd yr RCN yn cefnogi'r cam hwn mewn egwyddor gan ei fod yn fwy hyblyg i'r nyrs ac i anghenion y GIG. Fodd bynnag, roedd gan yr RCN bryderon na fyddai nyrsys yn cael eu cefnogi i gymryd y 6 modiwl cyfan, er mwyn ennill y cymhwyster llawn. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd a ddangosir isod yn dangos bod y pryderon hyn wedi'u cyfiawnhau.

Mae'r cymhwyster Nyrs Ardal yn cydnabod lefel o wybodaeth ac ymarfer sydd angen llawer o sgiliau mewn maes gwybodaeth gofal penodol iawn. Mae'n arbenigedd o fewn nyrsio cymunedol cyffredinol. Y nyrsys hyn yw'r rhai mwyaf profiadol mewn tîm nyrsio cymunedol, gan ddarparu goruchwyliaeth ac arweiniad clinigol.


Mae rhai lleisiau blaenllaw yn y proffesiwn nyrsio wedi mynegi awydd i foderneiddio'r cwricwlwm addysgol ar gyfer y cymhwyster hwn. Byddai'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn croesawu trafodaeth ar y mater hwn, ond ni ellir ei ddefnyddio fel esgus dros y dirywiad hwn.

**10 Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r gwasanaeth Nyrsys Ardal yng Nghymru.**




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nyrsio mewn Gwasanaethau Cymunedol | 3477.9 | 3535.6 | 3694.5 | 3507.5 | 3915.2 |
| Nyrsys Cofrestredig mewn Gwasanaethau Cymunedol | 2919.7 | 2946.5 | 3075.9 | 3141.8 | 3221.5 |
| Nyrsys Ardal | 693.4 | 665.8 | 583.5 | 516 | 412.3 |

Ffigur 7 Nyrsio Cymunedol a Nyrsys Ardal (Ystadegdau Cymru)




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster NA Llawn | 26 | 20 | 31 | 24 | 41 | 41 |
| Modiwlau NA | 50 | 100 | 172 | 163 | 123 | 123 |
| Nyrsys Ardal | 693.4 | 665.8 | 583.5 | 516 | 412.3 | |

Ffigur 8 Nyrsys Ardal ac Addysg Nyrsys Ardal a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Ystadegau Cymru a Llywodraeth Cymru)

Cynhyrchwyd y briff polisi hwn gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru ym mis Medi 2016. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Lisa Turnbull, ar lisa.turnbull@rcn.org.uk neu 02920 680 738.